Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Llwybr y Mwynwyr, Yr Wyddfa

**ANODD/LLAFURUS**




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 13km (8 milltir)
- Hyd: 6 awr
- Math o daith: Yno ac yn ôl


### ⚠ Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru

V-20230522/1549

**1**



Dechreua'r llwybr yng nghornel bellaf chwith maes parcio Pen y Pass, gyferbyn â'r fynedfa.

**2**



Bydd y llwybr yn fforchio ger Llyn Llydaw. Cadwch i'r dde ac fe ddowch at sarn sy'n croesi'r llyn.

**3**



Croeswch y sarn a dilynwch y llwybr gan fynd heibio adfeilion hen felin falu Gwaith Copr Britannia ar y dde i chi, cyn dringo'n serth at Glaslyn.

**4**




Hyd heddiw, mae adfeilion yr hen felin falu i'w gweld ger Llyn Llydaw, ac ymysg y gweddillion mae'r morthwylion malu mawr a ddefnyddiwyd i echdynnu'r mwyn gwerthfawr.

**5**




O Glaslyn, cadwch olwg am faen hir ger adfeilion hen farics, a dilynwch y llwybr i'r dde sy'n dringo'n serth dros y sgri. Mae'r rhan hon o'r daith yn ddringfa galed a gall fod yn hynod o lithrig. Pan fydd rhew ac eira ar y llwybr, gwell gadael gweddill y daith i gerddwyr profiadol gyda'r offer cywir.

**6**




Yn y man fe ddewch at faen hir sy'n nodi'r gyffordd gyda Llwybr Pyg (cofiwch amdani ar eich ffordd i lawr). O'r fan yma mae'r llwybr yn parhau i ddringo'n serth ac yn rhydd dan draed nes y cyrhaeddwch Fwlch Glas.

**7**




Ymhen ychydig, bydd y llwybr yn dringo'n igam ogam i fyny i Fwlch Glas.

**8**



Ym Mwlch Glas, fe fyddwch yn ymuno â Llwybr Llanberis a Llwybr Cwellyn. Mae'r gyffordd hon wedi ei nodi â maen hir (cofiwch amdani ar eich ffordd i lawr).

**9**



Dilynwch y llwybr i'r chwith o'r maen hir. Rydych yn awr ar y rhan olaf o'ch taith i gopa'r Wyddfa. Wrth gerdded ar gyflymder hamddenol, gallwch ddisgwyl bod ar y copa ymhen rhyw chwarter awr.

10



O'r copa ar ddiwrnod clir, cewch eich gwobrwyo â golygfeydd anhygoel - mae'n bosib gweld 18 o lynnoedd ac 14 copa dros 914m (3000 troedfedd). Weithiau, gallwch hyd yn oed weld mor bell â'r Iwerddon, Ynys Manaw ac Ardal y Llynnoedd.